Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pum Heol
# Heol Hen
# Pum Heol
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**o dan gytundeb i Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd gymunedol a gynhelir gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Pum Heol. Lleolir yr ysgol yng nghanol y pentref a gwasanaetha'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos. Yn ôl yr ysgol, nid yw'r ardal at ei gilydd yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae gan 17% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae 81 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae'r niferoedd wedi gostwng ychydig yn y blynyddoedd diweddar. Dynodir 25% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cynnwys tri disgybl ar ddatganiad o anghenion; canran sy'n uwch na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn 2. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o sicrhau eu bod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Daw tua 70% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith.

Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad fel Ysgol Iach ac wedi cyflawni statws Ysgol Eco. Mae wedi diwallu'r safonau i ennill achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd ers Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pum Heol yw £3491 sy'n cymharu gydag uchafswm o £17415 ac isafswm o £3014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 68ain uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd cyson yn eu dysgu;
- mae ansawdd yr addysgu'n dda ar y cyfan;
- cynigir ystod dda o brofiadau dysgu i'r disgyblion;
- mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt ymagweddau da tuag at ddysgu;
- mae'r partneriaethau gyda'r gymuned yn gryfder;
- mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned agos, deuluol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r ysgol yn mynd drwy broses o newid sylweddol o ran arweinyddiaeth a chyflenwad staff;
- nid yw cynllunio'r cwricwlwm yn ddigon cadarn i sicrhau dilyniant yn y dysgu ac i ddatblygu medrau'r disgyblion yn gynyddol ar draws yr ysgol;
- mae gweithdrefnau hunan arfarnu'r ddarpariaeth yn cael eu diweddaru;
- mae'r cynllun gwella newydd yn adnabod meysydd priodol i dderbyn sylw ond mae'r gweithredu yn ei ddyddiau cynnar.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 ymestyn cyflawniad y disgyblion mwy galluog;

A2 gryfhau medrau allweddol a medrau ehangach y disgyblion, yn enwedig eu medrau cyfathrebu Cymraeg a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A3 ddatblygu cynllunio ysgol-gyfan i sicrhau dilyniant cyson yn y dysgu;

A4 ddatblygu system tracio hygyrch i hwyluso monitro cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol;

A5 ddatblygu ymhellach y gweithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio ymlaen.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd y cynnydd a wneir yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau:  Da**

Mae cyflawniad disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn gyffredinol dda.  Gwna'r rhan fwyaf gynnydd cyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn ôl asesiadau athrawon dros y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion saith blwydd oed sy'n ennill o leiaf lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch neu yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol, sirol a'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.  Cafodd canlyniadau disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ddylanwad sylweddol ar ddeilliannau 2009.  Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill ar draws Cymru, yn seiliedig ar y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau at ei gilydd yn gosod yr ysgol yn y chwarteri uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.  Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch, sef lefel 3, yn anwastad ac, ar y cyfan, yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, sirol a'r teulu o ysgolion.

Mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2  mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch neu yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol, sirol, a'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.  Er hyn, mae'r tueddiadau yn y ganran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, yn mynd yn raddol ar i lawr.  Mae'r gostyngiad yng nghanlyniadau 2010 yn adlewyrchiad o'r

canran uchel o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn y garfan. Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill ar draws Cymru, yn seiliedig ar y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae’r canlyniadau at ei gilydd yn gosod yr ysgol yn y chwarteri uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel uwch, sef lefel 5, mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch yn gyffredinol na chyfartaleddau cenedlaethol, sirol a’r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae’r canlyniadau yn fwy anwastad mewn Cymraeg a Saesneg.

Nid oes gwahaniaeth cyson rhwng perfformiad y bechgyn a pherfformiad y merched er bod rhai amrywiaethau o flwyddyn i flwyddyn ac ymhlith pynciau. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da ar y cyfan. Yn ôl asesiadau athrawon, mae cyrhaeddiad disgyblion mwy galluog yn fwy anwastad. Nid yw’r disgyblion hŷn bob amser yn ymgymryd â thasgau digon heriol. Mae’r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cyson yn unol â’u gallu.

Gwna’r disgyblion ddefnydd priodol o’u medrau cyfathrebu Cymraeg yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw lleiafrif o’r disgyblion yn hyderus i drafod y testunau a astudiwyd a phrin yw’r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddigon cadarn ac yn yr arfer orau gwnânt ddefnydd pwrpasol ohonynt mewn pynciau eraill. Er y gwna plant y Cyfnod Sylfaen ddefnydd cyson o’u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, nid yw’r disgyblion yn gyffredinol yn datblygu ac ymestyn y medrau hyn yn ddigonol mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y pynciau.

Gwna’r disgyblion ddefnydd addas o strategaethau meddwl a datrys problemau mewn pynciau megis mathemateg a daearyddiaeth. Mae gallu’r disgyblion i asesu eu gwaith ei hunain a’u cyfoedion yn datblygu’n briodol yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2. Mae gallu plant y Cyfnod Sylfaen i weithio’n fwy annibynnol yn datblygu’n dda ond mae’r dilyniant yn fwy anwastad yng nghyfnod allweddol 2. Mae medrau Saesneg disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda.

Mae datblygiad medrau iaith Cymraeg y disgyblion yn dda ar y cyfan. Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gwrando’n astud. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn sgwrsio'n hyderus mewn amrediad o sefyllfaoedd, ond ymatebion byr a geir gan y disgyblion yn gyffredinol. Nid yw’r disgyblion hŷn, er enghraifft, yn ymestyn eu patrymau brawddegol yn ddigonol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn darllen yn gymwys gan wneud defnydd cynyddol o’u medrau wrth drin llyfrau ac wrth gywain gwybodaeth. Maent yn ysgrifennu’n briodol mewn amrediad o arddulliau. Er hyn, mae ysgrifennu lleiafrif o'r disgyblion ar draws y dosbarthiadau yn arddangos gafael ansicr o batrymau sillafu cywir.

### Lles: Da

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta’n iach a datblygu eu ffitrwydd. Gwyddant am bwysigrwydd dilyn dull iachus o fyw. Yn ystod trafodaeth, maent yn cadarnhau eu bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion ymagweddau da tuag at ddysgu a gweithiant yn gynhyrchiol gydag eraill.

Mae ymddygiad yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda ac mae disgyblion yn gwrtais i’w gilydd ac i oedolion. Cyfradd presenoldeb yr ysgol yw 93%, sydd yn

gymharus â'r gyfradd genedlaethol ond ychydig yn is nag ysgolion tebyg. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol a phwyllgor eco yn gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ac yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion yn dda. Mae'r holl ddisgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol a'r profiadau allgyrsiol a ddarperir. Mae eu cyfraniad at weithgareddau cymunedol yn nodwedd dda iawn o'r ddarpariaeth. Mae'r holl brofiadau hyn yn sicrhau y cânt eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r cynllunio i fodloni gofynion cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau yn datblygu ond yn eu cyfnod cynnar mae'r gweithdrefnau newydd i hyrwyddo dilyniant cyson yn y dysgu. Er bod y cynlluniau tymor byr yn amlygu'r medrau allweddol, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion eu cymhwyso a'u hymestyn yn gynyddol ar draws yr ysgol. Ni fanteisir ar bob cyfle i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion, er enghraifft, trwy sicrhau bod digon o brofiadau wedi eu cynllunio ar eu cyfer.

Yn yr arfer orau, rhoddir ystyriaeth dda yn y cynllunio i'r ystod eang o allu o fewn y dosbarthiadau, ond nid yw'r drefn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da ar y cyfan. Rhoddir pwyslais da ar ehangu geirfa'r disgyblion ond mae'r ffocws ar ymestyn a chyfoethogi iaith y disgyblion mwy galluog yn ei gyfnod cynnar. Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'r dimensiwn Cymreig yn datblygu'n effeithiol trwy'r cwricwlwm, ymweliadau â mannau o ddiddordeb ac ym mywyd cyffredinol yr ysgol.

Mae'r gweithgareddau i ddatblygu gwybodaeth disgyblion o gynaladwyedd yn dda. Mae'r cyfleoedd i ymestyn eu profiadau fel dinasyddion byd-eang yn datblygu'n briodol.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda ar y cyfan. Ceir perthynas waith dda rhwng athrawon a disgyblion a gwneir defnydd effeithiol o'r staff cynorthwyol wrth iddynt weithio gydag unigolion a grwpiau. Rhennir amcanion y gwersi gyda'r disgyblion ac yn yr arfer orau ail ymwelir â hwy yn effeithiol yn y sesiynau cloi. At ei gilydd, gwneir defnydd pwrpasol o ystod dda o ddulliau addysgu ac adnoddau. Yn yr arfer orau, mae tasgau yn cyfateb ag anghenion dysgu'r disgyblion yn gyson.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â rhaglen yr awdurdod lleol wrth weithredu profion safonol. Gwneir defnydd priodol o'r wybodaeth a gynhyrchir ar gyfer gosod targedau ond nid yw'r ffocws ar ddadansoddi data wedi datblygu'n ddigonol. Yn ogystal, nid

yw'r gweithdrefnau tracio cynnydd disgyblion unigol ar draws yr ysgol yn ddigon clir ac effeithiol.

Mae gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu o fewn yr ysgol.  Ar y cyfan, rhoddir adborth llafar effeithiol yn ystod gwersi.  Yn yr arfer orau, mae marcio yn gyson ac yn nodi'r ffyrdd ymlaen i ddisgyblion.  Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol yn y broses o osod targedau iddynt eu hunain ac maent yn dechrau gwerthuso eu cynnydd.  Mae adroddiadau i rieni yn cyfateb â gofynion statudol ac yn darparu gwybodaeth o safon dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol lle caiff disgyblion eu parchu a'u gwerthfawrogi.  Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n dda ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.  Gwneir defnydd addas o asiantaethau allanol yn ôl yr angen.  Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Hyrwyddir datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol.

At ei gilydd, mae darpariaeth yr ysgol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.  Caiff cynlluniau addysg unigol eu ffurfio ar y cyd mewn partneriaeth gyda'r disgyblion a'u rhieni.  Darperir rhwydwaith o weithgareddau cefnogi sydd yn cyfrannu at welliant mewn safonau cyflawniad.  Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag asiantaethau penodol i gynorthwyo'r disgyblion hynny sydd angen cymorth arbenigol.  Nid yw rhestr y disgyblion abl a thalentog yn ddigon manwl i nodi eu prif gryfderau, ac felly nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer ymestyn eu dysgu yn ddigon heriol bob amser.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos cadarnhaol iawn.  Caiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i holl feysydd y ddarpariaeth.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithredol trwy themâu'r cwricwlwm, rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol, addysg grefyddol a lles.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel i ddisgyblion.  Caiff yr ystafelloedd dysgu a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan ac maent yn darparu amgylchedd addas ar gyfer chwarae a dysgu.  Mae'r ystafelloedd yn lliwgar a gwneir defnydd da o'r ardal tu allan i gynnal ystod o weithgareddau.  Digonol yn unig yw'r cyfleusterau toiled i'r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi cyfrannu at sicrhau safonau cyrhaeddiad ffafriol ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd diweddar.  Ar hyn o bryd, mae'r ysgol mewn cyfnod o newid sylweddol o ran arweinyddiaeth a chyflenwad staffio.  Mae gan y pennaeth dros dro wybodaeth sicr o anghenion

cyfredol yr ysgol. O dan ei harweiniad, mae nifer o brosesau cynllunio a monitro yn cael eu diweddaru'n briodol a mentrau newydd yn cael eu sefydlu. Yn gymharol ddiweddar apwyntiwyd yr aelod parhaol arall o'r staff addysgu i'r uwch dîm rheoli. Mae gweddill y staff addysgu yn cynnwys dau aelod llawn amser ac un aelod rhan amser. Mae'r tri aelod newydd eu cymhwyso ac ar gytundebau byr dymor.

Ers dechrau'r flwyddyn academaidd bu newidiadau mewn cyfrifoldebau dosbarth rhai athrawon, a neilltuwyd cyfrifoldebau pynciol ar gyfer yr holl staff addysgu. Maent i gyd yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau newydd yn gydwybodol. Gwneir defnydd effeithiol o'r staff cynorthwyol ar draws yr ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda o'r ddarpariaeth addysgol a pherfformiad yr ysgol. Gweithreda'r aelodau eu cyfrifoldebau statudol yn effeithlon. Goruchwyliant fywyd a gwaith yr ysgol a chyfrannant yn effeithiol at y broses o symud yr ysgol yn ei blaen.

Rhydd yr ysgol sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'n gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, yn hybu strategaethau asesu ar gyfer dysgu, yn datblygu addysg gynaliadwy ac yn cyfrannu'n effeithiol fel aelod o glwstwr ysgolion sy'n bwydo'r ysgol gyfun leol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn y broses o ddiweddaru ei gweithdrefnau hunan arfarnu gyda ffocws ar fonitro gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth mewn dull mwy strwythuredig, gan gynnwys dadansoddiad o ddata. Rhydd y staff ystyriaeth briodol i sylwadau disgyblon, rhieni a llywodraethwyr a manteisir ar gyfraniad swyddogion o'r awdurdod lleol i'r broses. Yn eu dyddiau cynnar, fodd bynnag, y mae gweithrediad y mwyafrif o'r gweithdrefnau newydd.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys meysydd priodol i dderbyn sylw. Ceir ffocws tymor byr yn ogystal â thymor hwy yn y cynlluniau datblygu, ond nid yw'r gwahanol elfennau wedi eu blaenoriaethu'n ddigonol. Yn ogystal, nid yw'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso cynnydd yn ddigon strwythuredig a chynhwysfawr. Gwelir cysylltiad priodol yn datblygu rhwng prosesau hunan arfarnu a chynllunio ymlaen.

Tra bod yr ysgol wedi ymateb yn dda i rai o argymhellion yr arolygiad blaenorol, mae agweddau ar ddatblygu medrau cyfathrebu Cymraeg ac yn fwy penodol medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r ysgol yn datblygu gweithdrefnau hunan arfarnu newydd ond nid ydynt wedi'u sefydlu'n llawn.

Caiff yr hyfforddiant ar gyfer athrawon a'r staff cynorthwyol ei gysylltu'n briodol gydag anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol sydd yn galluogi staff i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae'r cysylltiadau proffesiynol sy'n bodoli gydag ysgolion y clwstwr yn gwneud cyfraniad positif i ddarpariaeth yr ysgol yn gyffredinol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau defnyddiol. Mae'r partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned leol yn un o gryfderau'r ysgol ac mae'r disgyblion yn elwa'n

fawr iawn o’r cysylltiadau a’r gweithgareddau a gynhelir.  Trwy ei gweithgareddau codi arian, mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon llwyddiannus yn darparu adnoddau ychwanegol sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.  Mae cysylltiadau da gyda'r ysgol feithrin leol ac mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i’r ysgol uwchradd yn effeithiol.  Mae partneriaethau gyda byd busnes yn datblygu.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n effeithiol.  Ceir cymhareb disgybl/athro ffafriol.  Mae gan yr athrawon gymwysterau priodol ac ystod dda o arbenigedd sydd yn eu cynorthwyo i addysgu holl agweddau’r cwricwlwm.  Gwneir defnydd priodol o amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer ymestyn profiadau dysgu’r disgyblion.  Ceir gweithdrefnau effeithiol sy’n cynnig cefnogaeth addas i’r athrawon sydd newydd gymhwyso.

Er bod cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael mewn rhai meysydd yn brin, gwneir defnydd da o adnoddau ar y cyfan i gefnogi’r dysgu.  Nid yw rhannau o’r adeilad ar ei wedd orau ond llwyddir i greu awyrgylch deniadol i’r disgyblion.

Mae is bwyllgor y corff llywodraethol, wrth gydweithio gyda’r pennaeth dros dro a swyddog gweinyddu’r ysgol, yn darparu cefnogaeth dda ar gyfer rheoli’r cyllid sydd ar adegau yn gymharol dynn.  Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer hybu addysg y disgyblion fel y nodir yn y cynllun datblygu ysgol.  O ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd 24 o'r rhieni/gofalwyr yr holiadur ac roeddent oll yn mynegi boddhad â'r ysgol. Rhoddodd bron yr holl rieni ymatebion cadarnhaol mewn perthynas â'r holl agweddau o'r ddarpariaeth. Dywedant fod eu plant yn hoffi bod yno a theimlant eu bod yn ddiogel yn yr ysgol. Roeddent hefyd yn dweud fod y plant yn derbyn digon o gefnogaeth ychwanegol mewn perthynas â'u hanghenion dysgu a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda. Credant eu bod nhw fel rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda a'u bod yn gallu trafod eu pryderon gyda'r ysgol. Creda'r rhan fwyaf fod y plant yn cael eu paratoi'n briodol i symud ymlaen i'w hysgol nesaf.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau'r ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth ac arweiniad. Maent yn cytuno fod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach ac i ddefnyddio dulliau byw mwy iachus. Mae'r rhan fwyaf yn credu eu bod yn gwneud yn dda a bod gwaith cartref yn eu helpu i wella safon eu gwaith. Creda'r mwyafrif fod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Miss Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Brinley Jones | Arolygydd Tîm |
| Mr Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Amanda Bowen-Price | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Eira Rumble | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A T Britannic
Llandarsi
Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |